# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **1af Hydref 2020** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol Craffu 2019-20** |
| **Aelod:** | **Y Cynghorydd Beth Lawton, Cadeirydd y Fforwm Craffu** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol)** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn yr adroddiad.

**CEFNDIR A RHESYMEG**

1. Yn unol â'r cyfansoddiad, fe gyflwynir adroddiad i gyfarfod o'r Cyngor yn ymhelaethu ar y gwaith craffu a wnaed yn ystod y flwyddyn.

2. Mae'r adroddiad sydd yn rhoi trosolwg o'r gwaith craffu a wnaed yn ystod 2019-20, wedi ei rannu o dan y penawdau yma:
   - Adolygiad o Drefniadau Craffu
   - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
   - Craffu Arbedion
   - Materion Craffu
   - Ymchwiliadau Craffu
   - Herio Perfformiad
   - Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2019/20

3. Gyda phwyslais cynyddol yn cael ei roi ar asesu effaith gwaith craffu, canolbwyntiwyd ar yr eitemau craffu lle ychwanegwyd gwerth drwy'r gwaith craffu. Mae rhestr o'r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad blynyddol.

4. Am y tro cyntaf, crëwyd fersiwn cryno o'r adroddiad. Lluniwyd y fersiwn cryno gan ymdrechu i ddefnyddio Cymraeg Clir gyda'r bwriad iddo gyflwyno gwaith craffu 2019-20, mewn modd hawdd i'w ddarllen a chryno.

**ATODIADAU:**

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Craffu 2019-20
Atodiad 2 – Fersiwn Cryno

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Mae'r gyfundrefn Craffu statudol yn rhan greiddiol o fframwaith trefn Cabinet. Drwy adolygu gwaith y Pwyllgorau Craffu ynghyd â'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu rhoddi'r cyfle i'r Cyngor gael ymwybyddiaeth o'r gwaith yma a'r math o faterion sydd wedi bod yn destun craffu. Rwy'n croesawu'r adroddiad.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf wedi cynorthwyo'r awdur i baratoi agweddau o'r adroddiad yma (yn arbennig y wybodaeth a'r ffigyrau o dan 'Craffu Arbedion', a gwaith craffu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu) ac rwy'n cadarnhau'r cynnwys perthnasol.